Dogfennau Ategol – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 4 – Tŷ Hywel

Dyddiad: Dydd Iau, 9 Mehefin 2022

Amser: 10.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

Owain Roberts

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6388

SeneddCyllid@senedd.cymru

Ar y safle – Pecyn atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

4 Y Gyllideb Atodol gyntaf ar gyfer 2022-23: Archwilio Cymru

(11.30-11.40) (Tudalennau 1 – 13)

Dogfennau ategol:

FIN(6)-13-22 P1 – Amcangyfrif Atodol Archwilio Cymru ar gyfer 2022-23

(Wedi'i gynnwys yn y pecyn atodol)

5 Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru): Goblygiadau ariannol

(11.40-11.50) (Tudalennau 14 – 19)

Dogfennau ategol:

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd **(Wedi'i gynnwys yn y pecyn atodol)**

Archwilio Cymru
Audit Wales

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

Drwy e-bost

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Cyfeirnod: LF22003/AC303
Dyddiad cyhoeddi: 1 Mehefin 2022

Annwyl Peredur

Adolygiad Teithio a Chynhaliaeth

Parthed ein llythyr 25 Tachwedd 2021, rydym bellach yn gallu darparu'r manylion ychwanegol a addawyd ar y costau a'r arbedion gwirioneddol sy'n gysylltiedig â chael gwared ar Lwfans Teithio i'r staff sy'n gymwys o 2024-25 ac effaith drosiannol yr arbedion.

Ym mis Ionawr 2022, cymeradwyodd y Pwyllgor Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2021-22 gan ddarparu cyllid adnoddau ychwanegol o £1.48m, sef yr uchafswm y byddai ei angen arnom i ddarparu taliad ymlaen llaw i'r holl staff cymwys heb unrhyw gyfraniad o'n cyllid craidd.

Ar ôl cwblhau ymarfer ymgynghori â staff yn llwyddiannus, anfonwyd llythyrau at yr holl staff ym mis Chwefror 2022 gan ofyn iddynt gytuno i delerau ac amodau newydd, ac y mae'r holl staff bellach wedi cytuno iddynt. Roedd y llythyrau hefyd yn rhoi'r opsiwn i staff cymwys dderbyn taliad ymlaen llaw, parhau i dderbyn Lwfans Teithio tan fis Mawrth 2024 neu, i'n hyfforddeion a'n prentisiaid, i symud ymlaen i raddfeydd cyflog newydd wedi'u meincnodi.

O ganlyniad i'r ymarfer hwn, dewisodd 67% o'r staff cymwys daliad ymlaen llaw am gyfanswm o £1.086m yn 2021-22 - £394,000 yn llai na'r hyn a ganiateir yn yr Amcangyfrif Atodol. Yn ogystal, llwyddodd Archwilio Cymru i ariannu £378,000 o arbedion ar gyllidebau eraill gan ddefnyddio £708,000 o'r arian ychwanegol a ddarparwyd.

Yn ein llythyr dyddiedig 25Tachwedd, rydym yn nodi 3 opsiwn ar gyfer dychwelyd yr arian ychwanegol hwn:

- Gallem ddychwelyd y cyllid i Gronfa Gyfunol Cymru fel tanwariant yn ein cyfrifon ar gyfer 2022-23 (arian parod heb ei defnyddio ac arbedion adnoddau).
- Gallem osod Amcangyfrif Atodol i ddychwelyd yr arbediad llawn i Gronfa Gyfunol Cymru yn ystod y flwyddyn; neu
- Gallem osod Amcangyfrif Atodol a Chynllun Ffioedd diwygiedig i rannu'r arbedion rhwng Cronfa Gyfunol Cymru a ffioedd.

Fel y disgrifiwyd pan wnaethom gyfarfod â'r Pwyllgor ar 11Mai 2022, bwriadwn leihau ein galwad ar Gronfa Gyfunol Cymru yn 2022-23 a 2023-24 gan £354,000 i 'ad-dalu' y £708,000 o gyllid a ddefnyddiwyd yn 2021-22. Rydym wedi cyflwyno Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2022-23 yn unol â hynny a byddwn yn adlewyrchu'r cydbwysedd yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2023-24 a gaiff ei osod gerbron y Pwyllgor yr hydref hwn.

Darparodd ein Hamcangyfrif ar gyfer 2022-23, a ystyriwyd gan y Pwyllgor ar 10 Tachwedd 2021, hefyd £750,000 ar gyfer symudiadau mewn cyfalaf gweithio yn ystod y flwyddyn – gan gynnwys rhyddhau'r ddarpariaeth ar gyfer y taliad ymlaen llaw a neilltuwyd yn 2021-22. Rydym yn lleihau'r gofyniad hwn gan £40,000 oherwydd bod y gyfradd dderbyn ar gyfer y taliad ymlaen llaw yn is na'r hyn a ganiateir fel y nodir isod

Symudiadau mewn cyfalaf gweithio 2022-23

	Amcangyfrif a Gymeradwywyd ar gyfer 2022-23 £'000	Amcangyfrif Atodol 2022-23 £'000	Newid net £'000
Rhyddhau'r ddarpariaeth ar gyfer talu ymlaen llaw	1,480	1,086	(394)
Cyllid sydd ar gael yn ystod y flwyddyn ar gyfer y lwfans teithio	(746)	(392)	354
Symudiadau eraill mewn cyfalaf gweithio	16	16	-
Cyfanswm symudiadau mewn cyfalaf gweithio	750	710	(40)

O 2023-24 ymlaen, ar ôl caniatáu codiad cyflog o £900 i'r holl staff, fel y cytunwyd mewn iawndal ar gyfer dileu'r lwfans teithio, rydym yn amcangyfrif arbedion parhaus o £200,000 y flwyddyn a fydd yn cael eu hadlewyrchu mewn Amcangyfrifon a Chynlluniau Ffioedd yn y dyfodol.

Mae croeso i chi gysylltu â ni os oes angen eglurhad neu wybodaeth ychwanegol arnoch.

Yn gywir

LINDSAY FOYSTER
Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru

ADRIAN CROMPTON
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Archwilio Cymru
Audit Wales

Memorandwm Esboniadol i'r Pwyllgor Cyllid ynghylch Amrywio Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y Flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023

Cyhoeddwyd: Mehefin 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2986A2022

Cyflwynwyd i Bwyllgor Cyllid y Senedd i'w ystyried o dan Reol Sefydlog 20.35.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Lindsay Foyster
Cadeirydd, ar ran **Swyddfa Archwilio Cymru**

Cynnwys

Cyflwyniad

4

4 4

Rheswm dros newid

4

4 4

Addasiadau i gyllidebau adnoddau 6

Atodiadau

Atodiad 1 – Crynodeb o ofynion cyllideb 2022-23 i'w cynnwys yng Nghynnig Cyllideb Atodol Gweinidogion Cymru o dan adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 7

Cyflwyniad

1 Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru gyflwyno amcangyfrif blynyddol o'i hincwm a'i wariant i Bwyllgor Cyllid y Senedd. Mae'n rhaid i'r pwyllgor cyfrifol archwilio'r Amcangyfrif hwnnw a'i osod gerbron y Senedd ar ôl gwneud unrhyw welliannau sy'n briodol yn ei barn nhw.

2 Cafodd yr Amcangyfrif ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2022-23 ei gynnwys yng Nghynnig Cyllideb Blynyddol Llywodraeth Cymru o dan Reol Sefydlog 20.26 ac fe'i cymeradwywyd yn y Cyfarfod Llawn ar 8 March 2022 yn dilyn gwaith craffu gan y Pwyllgor Cyllid.

3 Roedd cynnig y gyllideb yn awdurdodi Swyddfa Archwilio Cymru i gadw £15.082 miliwn o adnoddau cronnus, a gynhyrchwyd drwy ffioedd a godwyd ar gyrff a archwilir, a darparodd £8.608 miliwn arall o adnoddau eraill i gefnogi ein cynlluniau gwariant ar gyfer y flwyddyn. Gyda'i gilydd, defnyddir y £23.69 miliwn hyn i ariannu costau Swyddfa Archwilio Cymru wrth gyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

4 Mae Swyddfa Archwilio Cymru bellach yn ceisio diwygio'r Amcangyfrif a gymeradwywyd ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023.

Rheswm dros newid

Newidiadau i'n trefniadau teithio a chynhaliaeth

5 Ar 21 Ionawr 2022, ystyriodd y Pwyllgor Cyllid Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2021-22 i ariannu taliad ymlaen llaw sy'n gysylltiedig â dileu hawl cytundebol i gael Lwfans Teithio i staff y mae'n ofynnol iddynt deithio ledled Cymru i wneud eu gwaith.

6 Cymeradwywyd cyllid adnoddau ychwanegol o £1.48 miliwn a ganiataodd i bob aelod o staff cymwys gael taliad ymlaen llaw o £7,000 (pro rata) yn gyfnewid am roi'r gorau i'w hawl i Lwfans Teithio blynyddol o £3,350 (pro rata) o fis Ebrill 2022. Roedd gan staff opsiynau amgen o barhau i dderbyn y lwfans tan fis Mawrth 2024 neu, ar gyfer ein hyfforddeion a'n prentisiaid, yr opsiwn i symud i raddfa gyflog newydd, wedi'i meincnodi heb unrhyw lwfans.

7 Fel y digwyddodd, manteisiodd 67% o'r staff cymwys ar yr opsiwn o daliad ymlaen llaw am gyfanswm o £1.086 miliwn. Llwyddodd Archwilio Cymru i gyfrannu £314,000 o hyn o arbedion mewn meysydd cyllideb eraill. O ganlyniad, defnyddiwyd £708,000 o'r arian ychwanegol y cytunwyd arno yn ystod y flwyddyn.

8 Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnig gostyngiad o £354,000 i'w alwad ar gyllid adnoddau Cronfa Gyfunol Cymru yn 2022-23 a 2023-24 i wrthbwyso'r arian ychwanegol a ddefnyddiwyd yn Amcangyfrif Atodol 2021-22. Bydd arbedion parhaus, amcangyfrif o £200,000 y flwyddyn o 2024-25, yn cael eu hadlewyrchu mewn Amcangyfrifon a Chynlluniau Ffioedd yn y dyfodol.

Gweithredu IFRS 16 2022

9 Roedd disgwyl i safon gyfrifyddu newydd, Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 – Prydlesi (IFRS 16), ddod i rym o'r flwyddyn ariannol 2020-21 ymlaen. Penderfynodd Trysorlys EM a'r Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol (FRAB) i ohirio gweithredu IFRS 16 tan 1 Ebrill 2021. Cyhoeddwyd oedi pellach ym mis Tachwedd 2020, gan ohirio'r gweithredu tan 1 Ebrill 2022.

10 Mae IFRS 16 yn ei gwneud yn ofynnol i bob prydles gael ei chyfrif mewn modd cyson. Yn flaenorol, ni chydnabuwyd prydlesi a ddosbarthwyd fel 'prydlesau gweithredu' ac fe'i hadroddwyd 'oddi ar y fantolen'. Mae'r newid hwn yn effeithio'n bennaf ar y ffordd y caiff prydlesi ein tair swyddfa eu trin yn Heol y Gadeirlan, Caerdydd, Penllergaer ac Abergele, nad ydynt yn cael eu dosbarthu fel asedau a'u dibrisio ar hyn o bryd.

11 O 1 Ebrill 2022, bydd angen cydnabod y swyddfeydd fel asedau hawl i ddefnyddio a'u dibrisio dros gyfnod y brydles yn y dyfodol. Mae'r newid hwn yn arwain at gynnydd yn y taliadau dibrisiant a thaliadau llog yn ein cyllideb – wedi'u gwrthbwyso gan ostyngiad yn y gyllideb ar gyfer taliadau prydles. Ni fydd unrhyw newid yn swm y rhent a delir i'r landlordiaid, fodd bynnag, bydd y cyflwyniad cyfrifyddu yn wahanol. Mae'r newidiadau hyn at ddibenion cyfrifyddu yn unig ac ni fyddant yn cynyddu'r gofyniad arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru.

12 O ystyried yr amser byr sy'n weddill ar brydlesi ein swyddfeydd, mae'r effaith net ar adnoddau ar gyfer Archwilio Cymru yn ddibwys, ac nid oes angen unrhyw addasiad i'n cyllidebau adnoddau nac arian parod cyffredinol. At ddibenion adrodd, gwneir yr addasiadau canlynol i'n cyllidebau sy'n gysylltiedig ag asedau ar gyfer y flwyddyn.

Arddangosyn 1 – newidiadau i gyllidebau i adlewyrchu gofynion IFRS 16

	Amcangyfrif a Gymeradwywyd ar gyfer 2022-23 £'000	Addasiadau IFRS 16 £'000	Amcangyfrif Atodol 2022-23 £'000
Taliadau rhent prydles	424	(424)	–
Dibrisiant	280	420	700
Taliadau llog	–	4	4
Cyfanswm	704	–	704
Gofyniad arian parod net	424	–	424

Addasiadau i gyllidebau adnoddau

13 Fel yr esboniwyd uchod, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ceisio sicrhau gostyngiad o £354,000 i'w hadnoddau refeniw ar gyfer 2022-23 a gostyngiad o £394,000 i'w gofyniad arian parod net.

14 Nodir y newidiadau cysylltiedig i'r gyllideb ar gyfer 2022-23 yn **Arddangosyn 2**.

Arddangosyn 2: newidiadau i'r gyllideb 2022-23

	Amcangyfrif a Gymeradwywyd ar gyfer 2022-23 £'000	Amcangyfrif Atodol 2022-23 £'000	Amcangyfrif Diwygiedig 2022-23 £'000
Adnodd refeniw	8,298	(354)	7,944
Adnodd cyfalaf	310	–	310
Adnoddau cronnus	15,082	–	15,082
Cyfanswm y gwariant	23,690	(354)	23,336
Gofyniad arian parod net	9,078	(394)	8,684

Atodiad 1

Crynodeb o ofynion cyllideb 2022-23 i'w cynnwys yng Nghynnig Cyllideb Atodol Gweinidogion Cymru o dan adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

O dan adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006), caiff Gweinidogion gynnig Cynnig Cyllideb Atodol yn y Cynulliad Cenedlaethol i awdurdodi defnyddio adnoddau, cadw incwm a thynnu arian parod o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer personau perthnasol penodol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru.

O ran gwasanaethau a dibenion Swyddfa Archwilio Cymru yn y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023, bydd y Cynnig Cyllidebol yn awdurdodi:

- swm yr adnoddau sydd i'w ddefnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru;
- swm yr adnoddau cronnus i Swyddfa Archwilio Cymru y gellir eu cadw (yn hytrach na'u talu i'r Gronfa Gyfunol); ac
- y swm y gellir ei dalu o'r Gronfa Gyfunol i Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae'r gofynion hyn, na ellir ond eu hamcangyfrif oherwydd amrywioldeb ffrydiau incwm, wedi'u crynhoi yn **Nhablau 1 a 2** isod.

Tabl 1: crynodeb o'r amcangyfrif o ofynion cyllideb 2022-23

	£'000
Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn cyflawni swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru, yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilwyr a benodwyd gan lywodraeth leol, ac ar weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru:	
• Refeniw	7,944
• Cyfalaf	310
Adnoddau cronnus o ffioedd a thaliadau am wasanaethau archwilio a gwasanaethau cysylltiedig; adennill costau eraill sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol; incwm amrywiol o gyhoeddiadau, cynadleddau a darparu gwasanaethau gweinyddol a phroffesiynol a thechnegol i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar wasanaethau cysylltiedig a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru.	15,082
Gofyniad arian parod net o'r Gronfa Gyfunol i dalu'r symiau net sy'n ddyledus i'w talu yn ystod y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru.	8,684

Tabl 2: cysoni'r gofyniad o ran adnoddau a'r gofyniad i dynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru

	Amcangyfrif a Gymeradwywyd ar gyfer 2022-23 £'000	Amcangyfrif Atodol 2022-23 £'000	Newid net £'000
Cais net am adnoddau – refeniw a chyfalaf	8,608	8,254	(354)
Addasiad nad yw'n arian parod – dibrisiant a thaliadau llog	(280)	(704)	(424)
Taliadau rhent ar brydles	–	424	424
Addasiad nad yw'n arian parod – symudiadau mewn cyfalaf gweithio	750	710	(40)
Gofyniad arian parod net gan Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net sy'n ddyledus i'w talu yn ystod y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru	9,078	8,684	(394)

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon